# PWYLLGOR CYNLLUNIO

**Dydd Iau, 27 Mai 2021**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, D.M. Cundy, I.W. Davies, J.A. Davies, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Madge, B.D.J. Phillips a J.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu [y Dwyrain];
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu [y De];
Z.M. James, Swyddog Rheoli Datblygu [y De];
H. Rice, Swyddog Rheoli Datblygu;
P. Roberts, Swyddog Rheoli Datblygu;
K. Byrne, Cyfreithiwr Cynorthwyol;
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod: 10:00yb - 1:00yp**

[Noder: Cafodd y cyfarfod ei ohirio am 15 munud rhwng 11:45am a 12:00pm er mwyn galluogi'r Cadeirydd i gael cyngor cyfreithiol.]

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd G. B. Thomas.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| M. Charles | 3. Rhanbarth y Dwyrain - Penderfynu Ar Geisiadau Cynllunio - [E/32703] | Aelod o Gyngor Cymuned Llanegwad. |

## 3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn unol â'r amodau a nodwyd yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

[**Noder:** Gan fod y Cynghorydd M. Charles wedi datgan buddiant yn y cais canlynol yn gynharach fel aelod o Gyngor Cymuned Llanegwad, cyflwynodd sylwadau fel yr Aelod Lleol, ond nid oedd wedi cymryd rhan yn y trafodaethau na'r bleidlais.]

| | |
|---|---|
| E/32703 | **ADEILADU, GOSOD A GWEITHREDU TYRBIN GWYNT 100KW HYD AT 47M I FLAEN Y LLAFN, YNGHYD Â SEILWAITH ATEGOL SY'N CYNNWYS LLWYBR MYNEDIAD A CHYSYLLTIAD Â'R RHWYDWAITH DOSBARTHU TRYDAN LLEOL, TIROEDD PENCAU, GER FFERM LLWYNGWYN, FELIN-GWM, CAERFYRDDIN, SA32 AR GYFER NORVENTO WIND ENERGY UK LTD - TREVOR HOWE**<br><br>Cafwyd sylw gan yr Aelod Lleol yn gwrthwynebu'r cais ar ran y Cyngor Cymuned a'r preswylwyr hynny ac yn ailbwysleisio'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, ac roedd yn cynnwys pryderon ynghylch y goblygiadau ar y cynefin a'r bywyd gwyllt.<br><br>Ymatebodd y Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd |

**4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle. Bydd yr ymweliad safle yn cael ei drefnu yn amodol ar Reoliadau/Canllawiau Covid Llywodraeth Cymru ac yn unol â hwy ac yn dilyn asesiad risg a gynhelir gan yr Awdurdod hwn.**

| | |
|---|---|
| PL/00588 | **CAIS MATERION A GADWYD YN ÔL AR GYFER 13 O ANHEDDAU A CHYFLAWNI AMODAU CYSYLLTIEDIG 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11 A 12 YN UNOL Â CHANIATÂD AMLINELLOL (CYF. S/36817) - TIR GWASANAETH LABORDY CENEDLAETHOL CYFOETH NATURIOL CYMRU GYNT, LÔN PEN Y FAI , FFWRNES, LLANELLI, SA15 4EL**<br><br>Cafwyd sylwadau a wrthwynebai'r cais ac a ailadroddodd y pwyntiau gwrthwynebu y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio ac roedd y prif bryderon yn ymwneud â'r canlynol:-<br><br>Uniondeb y cynlluniau,<br>Yr effaith andwyol ar amwynder trigolion cyfagos<br>Y newid mewn lefelau o ganlyniad i'r datblygiad yn golygu ei fod yn ormesol wrth ystyried yr eiddo cyfagos gan achosi preswylwyr i golli preifatrwydd yn enwedig mewn perthynas â llain 1.<br><br>Ymatebodd yr Asiant a'r Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd.<br><br>Mynegwyd bod rhai aelodau'n ei chael yn anodd clywed holl bwyntiau'r gwrthwynebydd gan fod ansawdd y sain yn wael, ac ar ôl derbyn y sylwadau gan y gwrthwynebwyr a oedd yn bresennol drwy e-bost, rhoddodd y Cadeirydd gyfle i Aelodau'r Pwyllgor glywed pob gwrthwynebiad drwy eu darllen yn glywadwy i'r Pwyllgor.<br><br>Yn dilyn y pryderon a godwyd mewn perthynas â'r gwrthwynebiadau |

| | |
|---|---|
| | ynghylch colli preifatrwydd a gwedd y datblygiad, cynigiwyd bod y Pwyllgor yn cynnal archwiliad safle er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r effaith ar yr eiddo cyfagos. Eiliwyd y cynnig hwn.<br><br>Er mwyn ceisio cyngor cyfreithiol, gohiriodd y Cadeirydd y cyfarfod am 15 munud am 11:45am. Am 12:00pm, ailymgynullodd y Pwyllgor ac o ystyried y gwrthwynebiadau, cynigiwyd bod y Pwyllgor yn cynnal ymweliad safle yn amodol ar Reoliadau Covid Llywodraeth Cymru ac ar ôl i'r Awdurdod hwn gynnal asesiad risg. |

## 5. HYD Y CYFARFOD

Am 1.00 p.m., yn unol â Rheol 9 o Weithdrefn y Cyngor, tynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at y ffaith bod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers 3 awr a chynigiodd fod y cyfarfod yn cael ei ohirio tan 1.30 p.m. Fodd bynnag, roedd gan nifer o aelodau gyfarfodydd eraill wedi'u trefnu ar gyfer y prynhawn hwnnw ac nid oeddent yn gallu dychwelyd am 1.30 p.m. Felly

**PENDERFYNWYD y dylid gohirio ystyried yr eitemau canlynol tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio a gynhelir ddydd Mawrth, 8 Mehefin, 2021 am 10:00am:-**

- E/40650 - Dymchwel ysgol a chodi datblygiad preswyl 6 preswylfa, dyluniad manwl o'r lleoliad, dyluniad, gwedd allanol a gwaith tirweddu yn y datblygiad, Ysgol Gynradd Gymunedol Nantygroes, Milo, Llandybïe, Rhydaman, SA18 3NZ

- PL/01427 – Estyniad deulawr ar ochr y breswylfa, 67 Heol Pontarddulais, Tŷ-croes, Rhydaman, SA18 3QA

- LLOFNODI BOD COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR AR 29 EBRILL, 2021 YN GOFNOD CYWIR

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]